# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Mai 2017

Amser: 14.00 - 15.38

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/4108) yn:

[http://senedd.tv/cy/4108](http://senedd.tv/cy/4108)

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Neil McEvoy AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | Steve Davies, Llywodraeth Cymru<br>Owen Evans, Cyfarwyddwr, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Gareth Jones<br>Matthew Mortlock |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 999KB) Gweld fel HTML (999KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

1.3 Datganodd Mike Hedges AC fuddiant fel Llywodraethwr dwy ysgol gynradd a datganodd Neil McEvoy AC fuddiant fel cyn athro.

## 2 Papur(au) i'w nodi:

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 3 Consortia Addysg Rhanbarthol: Sesiwn Dystiolaeth 3

3.1 Craffodd yr Aelodau ar waith Owen Evans, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, a Steve Davies, Cyfarwyddwr Addysg, Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r ymchwiliad i Gonsortia Addysg Rhanbarthol.

3.2 Cytunodd Owen Evans i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol a ganlyn:

- Data o'r rhanbarthau sy'n dangos i ba raddau y mae gwaith ysgol i ysgol yn gweithio
- Data sy'n dangos canran y gwelliant yn y pynciau TGAU allweddol canlynol yn dilyn rhaglen Her Ysgolion Cymru
- Anfon nodyn ynghylch y defnydd o Moodle
- Anfon penawdau o'r ymweliad diweddar â'r Ffindir.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Consortia Addysg Rhanbarthol: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.
5.2 Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru gyda meysydd holi yr oedd yr aelodau yn dymuno eu harchwilio ymhellach.
5.3 Cytunodd yr Aelodau ar ôl ystyried yr ymateb gan Lywodraeth Cymru, y dylid anfon pryderon y Pwyllgor at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.